



YSGOL DYFFRYN TRANNON, TREFEGLWYS

Trefeglwys, Caersws, Powys SY17 5PH



Pennaeth / Headteacher

Caroline Harries

Ffôn/Phone: 01686 430644

Ebost/Email: swyddfa@dyffryntrannon.powys.sch.uk

Gwefan/Website: www.dyffryntrannon.powys.sch.uk

Scroll down for English version

10.09.2021

Annwyl Rieni

Ar ddiwedd yr wythnos lawn cyntaf yn ôl yn yr ysgol, hoffwn groesawu'n ffurfiol ein disgyblion derbyn a'u rhieni i'r ysgol ac i ddisgyblion a rhieni sydd wedi symud i Ysgol Dyffryn Trannon o rywle arall. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni – croeso cynnes i chi gyd.

Manylion Cyswllt

Rhannwyd gwybodaeth eisoes gyda rhieni ynghylch yr app Seesaw. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r app, mae'n fodd i ni gyfathrebu â chi'n hawdd a rhannu lluniau o weithgareddau dosbarth ac ati. Os nad ydych wedi derbyn manylion, cysylltwch ag athrawes dosbarth eich plentyn.

Rydym yn y broses o ddiweddarau manylion cyswllt, felly yn ystod yr wythnosau nesaf byddwch yn derbyn dolen i holiadur. Gofynnwn i chi gwblhau'r ddolen ar gyfer pob un o'ch plant (os oes gennych fwy nag un plentyn yn yr ysgol), gan ei fod wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â dosbarth eich plentyn.

Covid-19

Mae gwybodaeth / arweiniad yn cael ei diweddarau yn aml ac ar brydiau gall y canllawiau fod yn aneglur i'w dilyn. Felly, isod mae rhywfaint o wybodaeth y gobeithiaf y bydd yn ddefnyddiol i chi.

GWYBODAETH BWYSIG I RIENI A GOFALWYR

Fel y gwyddoch, mae trefniadau Covid-19 yn yr ysgol fel yr oeddent cyn gwyliau'r haf. Fodd bynnag, hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch hatgoffa o nifer o bwyntiau allweddol i'w cofio.

Trefniadau cyrraedd / diwedd y dydd

- Rhieni/gwarchodwyr i wisgo 'gorchydd neu mwgwd' ar safle'r ysgol.
- Cadwch bellter oddi wrth eraill.

Beth os oes gan fy mhientyn un o'r symptomau?

Dylai unrhyw ddysgwr sydd ag unrhyw un o brif symptomau COVID-19 (**peswch parhaus newydd, twymyn a/neu golli blas neu arogl**):

- ddim yn mynychu lleoliad yr ysgol
- hunanyysu
- trefnu prawf COVID-19 (PCR)
- hysbysu'r ysgol o hyn.

**Rhaid i aelodau'r cartref sydd dros 18 oed ac nad ydynt wedi'u brechu'n llawn, hunanynysu.

**Nid oes angen i gysylltiadau sydd wedi'u brechu'n llawn neu o dan 18 oed hunanynysu yn yr achos hwn.

Beth os bydd fy mhlentyn yn profi'n bositif am Covid-19?

- Rhaid i'r plentyn hunanynysu ar unwaith a dilyn canllawiau TTP (Profi, Orlhain, Diogelu).
- Rhaid hysbysu'r ysgol ar unwaith drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol (01686 430644) neu ffonio LLINELL GYMORTH yr ysgol ar 07564 582634 y tu allan i oriau hyn.

Beth os bydd aelod o gartref y disgybl yn profi'n bositif am Covid-19?

- Rhaid i ddysgwyr peidio â dod i'r ysgol os ydynt yn byw gyda rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi profi'n bositif am Covid-19. **Oni bai eu bod wedi'u brechu'n llawn neu o dan 18 oed.**
- Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddisgyblion hunanynysu os ydynt yn gyswllt ag achos cadarnhaol neu gyswllt rhywun sydd â symptomau, oni bai eu bod yn cael eu cynghori i wneud hynny gan TTP.
- Byddwch yn cael eich annog i fynd â'ch plentyn am brawf PCR ar unwaith a phrawf dilynol ar ddiwrnod 8.

Beth os oes gan fy mhlentyn ystod ehangach o symptomau?

Gall prawf fod ar gael i unigolion sy'n profi ystod ehangach o symptomau megis blinder, myalgia (cyhyrau neu boen), dolur gwddf, cur pen, trwyn sy'n rhedeg, cyfog, chwydu, neu ddolur rhydd os ydynt yn symptomau newydd, parhaus a/neu anarferol ar eu cyfer.

- Gofynnir i rieni ystyried mynd â'u plentyn am brawf PCR.
- Anogir rhieni i gadw'u plentyn adref i hunan-ynysu tra byddant yn aros am ganlyniad eu prawf.
- Dylai plant ac oedolion sydd â dolur rhydd a/neu chwydu aros i ffwrdd o'u hysgol neu eu lleoliad nes eu bod yn rhydd o symptomau am 48 awr hyd yn oed os yw eu prawf COVID-19 yn negyddol.

Oni bai bod un o'r tri phrif symptom yn datblygu - nid oes rhaid i aelodau o'r ty yr unigolyn hunanynysu.

Beth os bydd fy mhlentyn yn mynd yn sâl yn yr ysgol gyda symptomau Covid-19?

Pan fydd dysgwr yn mynd yn sâl yn yr ysgol gyda symptomau COVID-19 byddant yn cael eu hanfon adref ar unwaith i hunanynysu a threfnu prawf COVID-19.

- Hyd nes y byddant yn gadael yr ysgol (yn achos dysgwr, pan gânt eu casglu gan riant/gofalwr), bydd eu cyswllt â phob unigolyn arall yn y lleoliad yn cael ei leihau.
- Bydd y disgybl yn aros mewn ystafell ar wahân nes y gall adael yr ysgol.

Sut bydd yr ysgol yn lleihau lledaeniad Covid-19?

- Annog glanhau dwylo'n drwyadl yn amlach nag arfer gyda sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad, neu defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes sebon a dŵr ar gael.
- Sicrhau hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei finio, ei ladd, golchwch eich dwylo'.
- Cynnal lefelau priodol o lanhau.
- Sicrhau awyru digonol.
- Hyrwyddo cadw pellter corfforol lle bo hynny'n briodol.
- Nid yw gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth gan staff neu ddysgwyr. Fodd bynnag, gall unigolion ddewis gwisgo un. Anogir gorchuddion wyneb ar gyfer staff mewn ardaloedd cymunedol.

Dear Parents / Carers

At the end of the first full week back in school, I would like to formally welcome our new reception pupils and their parents to school and to pupils and parents who have moved to Ysgol Dyffryn Trannon from elsewhere. We hope that you will be very happy with us – a warm welcome to you all!

Contact Information

Information has been shared with Parents re: Seesaw app. If you are not familiar with the app, it is a means of us communicating with you easily and share photos of class activities etc. If you have not received details, please make contact with your child's class teacher.

We are in the process of updating contact details so in the coming weeks, you will receive a link to a questionnaire. We ask that you complete the link for each of your children (if you have more than one child at school), as it is directly linked to your child's class.

Covid-19

Information / guidance is often updated and it is sometimes unclear the guidance that needs to be followed. Therefore, below is some information that I hope will prove useful to you.

IMPORTANT INFORMATION FOR PARENTS AND CARERS

As you will be aware, Covid-19 arrangements in school are as they were before the summer holiday. May I take the opportunity however, to remind you of a number of key points to remember.

Start / End of the day

- Parents/Carers to wear a face covering / mask whilst on the school site.
- Maintain social distancing.

What if my child has one of the symptoms?

Any learner who has any of the 3 cardinal symptoms of COVID-19 (**new persistent cough, fever and/or loss of taste or smell**) should:

- not attend the school setting
- self-isolate
- arrange a COVID-19 test (PCR)
- notify the school of this.

**Members of the household who are over 18 and not fully vaccinated must isolate.

**Household contacts who are fully vaccinated or under 18 do not need to self-isolate in this case.

What if my child tests positive for Covid-19?

- The child must self-isolate immediately and follow TTP (Test, Trace, Protect) guidance.
- The school must be informed immediately by contacting the school office during the school day (01686 430644) or telephoning the positive test school HOTLINE on 07564 582634 out of hours.

What if a member of a pupil's household tests positive for Covid-19?

- Learners must not come into school if they live with someone who has symptoms or has tested positive for Covid-19. **Unless they are fully vaccinated or are under 18.**

- Pupils are not legally required to self-isolate if they are a contact of a positive case or contact of someone with symptoms, unless they are advised to do so by TTP.
- You will be encouraged to take your child for a PCR test immediately and a subsequent test on what would be day 8.

What if my child has a wider range of symptoms?

Testing may be available for individuals who are experiencing a wider range of symptoms such as fatigue, myalgia (muscle ache or pain), a sore throat, a headache, a runny nose, nausea, vomiting, or diarrhoea if they are new, persistent and/or unusual symptoms for them.

- Parents are asked to consider taking their child for a PCR test.
- Parents are encouraged to keep their child in self-isolation while they await their test result.
- Children and adults with diarrhoea and/or vomiting should remain away from their school or setting until they are symptom free for 48 hours even if their COVID-19 test is negative.

Unless one of the three main symptoms develop - the individual's household does not have to self-isolate.

What if my child becomes unwell at school with possible Covid-19 symptoms?

- Where a learner becomes unwell at the school with possible symptoms of COVID-19 they will be sent home immediately to self-isolate and arrange a COVID-19 test.
- Until they leave the school (in the case of a learner, when they are collected by a parent/carer) their contact with all other individuals at the setting will be minimised.
- The pupil will remain in a separate room until they are able to leave the setting.

How will the school minimise the spread of Covid-19?

- Clean hands thoroughly more often than usual with soap and water for at least 20 seconds, or use a hand sanitiser if soap and water are unavailable.
- Ensure good respiratory hygiene by promoting the 'catch it, bin it, kill it, wash your hands' approach.
- Maintain appropriate levels of cleaning.
- Ensure adequate ventilation.
- Promote physical distancing where appropriate.
- Face coverings are not routinely recommended for use in classroom by staff or learners. However, individuals may choose to wear one. Face coverings are encouraged for staff in communal areas.

Yn gywir / Yours sincerely

Mrs C Harries

Pennaeth / Headteacher